Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Babanod Coed Mawr
# Coed Mawr
# Bangor
# Gwynedd
# LL57 4SG

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2010**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Iechyd ar Waith – Cyrraedd y Nod – The Corporate Standard – Health at Work

Safon Amgylcheddol y Ddraig Werdd – Green Dragon Environmental Standard

INVESTORS IN PEOPLE | BUDDSODDWYR MEWN POBL

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Babanod Coed Mawr wedi ei lleoli yng nghanol stad o dai ar gyrion tref Bangor ac fe'i cynhelir gan awdurdod addysg lleol Gwynedd. Ar hyn o bryd mae cyfanswm o 58 o ddisgyblion rhwng 3 a 7 oed ar gofrestr yr ysgol gan gynnwys 17 o blant meithrin a dderbyniwyd yn rhan-amser yn y mis Medi yn dilyn eu trydydd pen-blwydd. Mae'r niferoedd disgyblion wedi aros yn weddol wastad ers yr arolygiad diwethaf.

Daw 11% o'r disgyblion o gartrefi ble y siaredir y Gymraeg yn iaith gyntaf, 28% o gefndir lleiafrifol ethnig a'r gweddill o gartrefi ble mae'r Saesneg yn brif iaith cyfathrebu. Serch hynny Cymraeg yw prif gyfrwng cyfathrebu a dysgu'r ysgol. Cynrychiolir amrywiaeth o gefndiroedd cymdeithasol ac adlewyrchir ystod lawn o allu. Trideg naw y cant o'r disgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ffigwr yma yn uwch na'r cyfartaleddau sirol a chenedlaethol. Dynodir 15% o ddisgyblion a chanddynt anghenion addysgol arbennig gyda dau ar ddatganiad.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2009-2010 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Babanod Coed Mawr yw £3797 sy'n cymharu gydag uchafswm o £8442 ac isafswm o £2717 ar gyfer ysgolion cynradd yng Ngwynedd. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl 37ain uchaf o'r 103 ysgol gynradd yng Ngwynedd.

Penodwyd y Pennaeth i arwain Ysgol Babanod Coed Mawr ac Ysgol Iau Glanadda yn Ionawr 2010 gyda'r bwriad o uno'r ddwy ysgol i'r dyfodol.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor yr Hydref 2004 ac mae nifer sylweddol o'r staff yn newydd i'r ysgol ers hynny.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da wrth ddysgu ac yn gyffredinol gyflawni safonau da yn arbennig yn yr iaith Gymraeg;
- defnyddia'r disgyblion amrediad dda o fedrau allweddol ar draws y cwricwlwm yn effeithiol;
- mae'r addysgu'n dda ar draws yr ysgol; ac
- mae yna ethos ofalgar sy'n sicrhau fod bron bob disgybl yn mwynhau'r ysgol ac yn teimlo'n ddiogel.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygyn gwella'r darparwr yn dda oherwydd:

- mae gan yr athrawon a'r staff ategol rolau clir sy'n cael eu cyflawni'n gyson dda;
- cynigir cefnogaeth dda i'r pennaeth o dydd i ddydd gan y pennaeth cynorthwyol;
- nid yw'r cyswllt rhwng deilliannau y broses hunanarfarnu a'r cynllun datblygu ysgol yn ddigon amlwg; ac
- o weithredu'r argymhellion a chydweithio rhwng y Llywodraethwyr, yr ysgol a'r awdurdod hyderwn y gall yr ysgol symud ymlaen i wella.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r ysgol:

A1 adnabod y garfan o ddisgyblion mwyaf abl a gwahaniaethu’n fwy bwriadus ar eu cyfer;

A2 mynd i’r afael â’r lefel isel o bresenoldeb;

A3 mireinio’r gweithdrefnau hunan arfarnu er mwyn sicrhau gwell cyswllt a’r cynllun datblygu ysgol;

A4 sicrhau mwy o gyfleoedd i ddatblygu llais y dysgwyr; a

A5 datblygu ymhellach partneriaethau â rhieni ac ysgolion eraill.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro gweithrediad y cynllun ac yn adrodd i Estyn ar ymdrechion yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae lefel medrau'r plant ar fynediad i'r ysgol yn amrywiol a charfan arwyddocaol gydag anghenion addysgol ychwanegol yn flynyddol. Mae'r safonau ar ddiwedd y Cynod Sylfaen yn gyffredinol dda a'r cyflawniad ar lafar yn y Gymraeg yn dda iawn. Mae medrau gwrando, ysgrifennu cynnar a rhif yn datblygu yn unol ag oedran a gallu'r plant.

Mae canlyniadau'r disgyblion ar ddiwedd cyfnod allweddol 1 2009/10 yn is na chanlyniadau y flwyddyn flaenorol gyda'r dangosydd pwnc craidd (y canlyniad disgwyliedig mewn Saesneg neu Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn is na'r teulu, awdurdod lleol a Chymru.

O fewn y Gymraeg mae canran o'r disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn agos i'r teulu ond yn is na'r awdurdod lleol a Chymru.

Mewn mathemateg mae'r ganran yn is na'r teulu, yr awdurdod lleol a Chymru ond ychydig yn well na'r teulu mewn gwyddoniaeth er yn is na'r awdurdod lleol a Chymru.

Nid yw'r canlyniadau yn cymharu'n ffafriol gydag ysgolion tebyg o feincnodi yn erbyn ysgolion â chanran debyg o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi ei lleoli o fewn y trydydd chwartel o ran y DPC a'r pynciau craidd ac ar y ffin rhwng y 3ydd a'r 4ydd chwartel yn y Gymraeg.

Anwastad yw'r ganran dros dreigl amser o bedair mlynedd gyda'r canlyniadau yn 100% mewn Cymraeg a gwyddoniaeth yn 2008/09. Mae canlyniadau llafar Cymraeg yn raddol well ers 2006 er ar i lawr eleni. Mae'r patrwm dros bedair mlynedd o fewn darllen ac ysgrifennu yn mynd yn raddol ar i lawr. Mae niferoedd a dwyster anghenion addysgol arbennig carfan arwyddocaol o'r disgyblion yn dylanwadu ar y canlyniadau o flwyddyn i flwyddyn.

Nid oes gwahaniaeth arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched ers 2006 ag eithro perfformiad y bechgyn oedd 15% yn is eleni mewn ysgrifennu Cymraeg.

Mae disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, y disgyblion o dras ethnig a'r disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA) yn cyflawni'n dda. Fodd bynnag nid yw disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cyflawni i'w llawn gallu.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol. Mae medrau cyfathrebu, medrau mathemategol a technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ar draws y cwricwlwm y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda erbyn trosglwyddo i'r ysgol iau.

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion safon dda o iaith lafar yn y Gymraeg a dont yn hyderus yn eu defnydd ohoni o fewn cyfnod byr o fod yn yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn ymwybodol o'r angen i gadw'n heini ac i fwyta'n iach. Maent yn hapus yn yr ysgol, yn teimlo'n ddiogel ac yn ymddwyn yn gwrtais tuag at ymwelwyr a thuag at eu gilydd. Mae'r disgyblion wedi cymryd rhan weithredol yn y broses o ddatblygu tir yr ysgol wrth gynllunio llwybr igam ogam newydd.

Mae presenoldeb yr ysgol yn destun pryder a'r dadansoddiad o ffigyrau presenolodeb yn anghyson. Nodir gan yr ysgol fod lefel presenoldeb y dysgwyr am 2009/10 yn 90.3%.

Mae'r disgyblion oll yn gyfrifol am wneud penderfyniadau am eu dysgu trwy ddewis gweithgareddau ac mae ganddynt ymwybyddiaeth o'u targedau ar gyfer gwella. Mae bron bob disgybl yn mwynhau eu gwaith ac yn gynyddol ddatblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol ac yn dangos lefel briodol o gymhelliant a dyfal-barhad tra ar waith.

Mae dau ddisgybl yn cynrychioli'r ysgol ar y cyngor ysgol sefydlwyd ar y cyd hefo'r ysgol iau. Mae'r disgyblion yn dechrau datblygu lleisio eu barn i ddylanwadu ar fywyd yr ysgol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm cytbwys ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb yr holl ddisgyblion.Gweinyddir cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen hyd at Flwyddyn 1 a'r Cwricwlwm Cenedlaethol i Flwyddyn 2 yn unol â'r gofynion statudol. Mae anghenion bron pob disgybl yn cael eu diwallu. Mae'r tasgau wedi eu cynllunio yn wahaniaethol ar gyfer ystod gallu'r disgyblion. Mae'r ysgol yn darparu cynlluniau personol ar gyfer y nifer o ddisgyblion gydag anghenion addysgol arbennig. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer y disgyblion mwy abl wedi ei ddatblygu'n ddigonol.

Rhoddir sylw penodol i baratoi cyfleoedd sy'n datblygu medrau rhifedd a TGCh ac fe adlewyrchir hyn yn y cynlluniau gwaith manwl. Yn ogystal, gwneir ymdrech arbennig ym mhob dosbarth i ddatblygu medrau cyfathrebu'r disgyblion ar draws y cwricwlwm. Mae'r ysgol yn adnabod yn gynnar y disgyblion sy'n tangyflawni yn eu medrau llythrennedd a rhifedd ac fe dderbyniant gymorth ychwanegol i'w cynorthwyo i wneud cynnydd.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu yr iaith Gymraeg yn dda ac yn cynnig cyfleoedd i'r disgyblion i ddatblygu eu medrau ieithyddol. Nid yw'r dimensiwn Cymreig yn cael yr un sylw.

Cafodd y disgyblion gyfle i gyfrannu at gynllunio un ardal allanol fel rhan o ymdrechion yr ysgol i ennill y wobr efydd yng Nghynllun Ysgolion Gwyrdd. Mae'r disgyblion bellach yn gweithio tuag at ennill y fedal arian. Hybir yn effeithiol y

cysyniad o aml-ieithrwydd a pharchu traddodiadau trwy gyfeirio at gefndir amrywiol y disgyblion.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dda ac yn sicrhau fod anghenion bron bob disgybl yn cael eu gwireddu. Mae'r holl staff yn defnyddio eu gwybodaeth flaenorol am y disgyblion yn effeithiol er mwyn hybu y dysgu. Maent yn fodelau ardderochog o ran defnyddio iaith lafar raenus a manteisir ar bob cyfle posib i atgyfnerthu patrymau iaith y disgyblion.

Mae'r ysgol wedi mabwysiadu dulliau cynllun rhyngwladol er hybu disgyblaeth gadarnhaol. Mae'r drefn yma wedi hen dreiddio ac yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ethos yr ysgol, ar ymddygiad yn gyffredinol ac ar ddatblygiad personol a chymdeithasol pob disgybl.

Mae'r athrawon a'r cymorthyddion yn asesu cynnydd y disgyblion yn barhaus. Mae strategaethau asesu ar gyfer dysgu wedi eu hintigreiddio i'r mwyafrif o'r gwersi. Caiff cynnydd y disgyblion ei olrhain ar draws yr ysgol ar lefel unigol ynghŷd ag ar lefel grŵp. Mae'r ysgol yn defnyddio'r drefn cofnodi arsylwadau ar 'post-its' ac yna trosglwyddo'r wybodaeth i lyfrau cofnodi pwrpasol. Defnyddir y wybodaeth a gesglir yn effeithiol ar gyfer blaen gynllunio, fel cofnod ar gyfer adrodd i rieni ac o fewn proffiliau unigol ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth i'r ysgol iau. Targedir disgyblion sy'n tangyflawni yn gynnar iawn ac fe dderbyniant gymorth ychwanegol i hybu eu dysgu ym maes llythrennedd a rhifedd. Gosodir targedau unigol byr a hir dymor i'r disgyblion. Mae'r ysgol wedi cychwyn ar y broses o roi cymorth i'r disgyblion i adnabod eu llwyddiant eu hunain ond nid yw hyn wedi treiddio hyd yma.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae dulliau dau gynllun rhyngwladol bellach yn rhan greiddiol o feddylfryd yr ysgol ac yn cael ei ddefnyddio yn effeithiol iawn er mwyn hybu lles emosiynol, moesol a chymdeithasol y disgyblion. Atgyfnerthir egwyddorion y cynlluniau yn ddyddiol ac mae'r disgyblion i gyd yn ymateb yn dda i'r arweiniad. Nid yw'r ddarpariaeth ar gyfer lles ysbrydol y disgyblion wedi ei ddatblygu mor effeithiol gan nad oes llawer o ffocws yn cael ei roi ar baratoi cyfleoedd i fyfyrio ar gredoau.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda asiantaethau proffesiynol eraill, megis y therapydd iaith a lleferydd, y nyrs ysgol a'r seicolegydd addysg, gan fanteisio ar eu harbenigedd er mwyn hybu lles y disgyblion.

Mae gan yr ysgol bolisiau priodol a gweithdrefnau ar gyfer diogelu ac amddiffyn plant. Dengys ymatebion y disgyblion ar lafar eu bod yn hapus iawn yn yr ysgol ac yn teimlo'n ddiogel. Mae pob disgybl yn cael cyfle cyfartal i ddatblygu'n gymdeithasol.

Darperir cymorth ac arweiniad da i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol sy'n cydymffurfio â'r Côd Ymarfer. Caiff anghenion y disgyblion eu hadnabod yn gynnar a threfnir darpariaeth bwrpasol ac effeithiol ar eu cyfer.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol. Mae nifer o ddisgyblion o gefndiroedd ethnig a ieithyddol gwahanol. Defnyddir hyn yn fanteisiol er mwyn hybu'r cysyniad o aml-ieithrwydd ac fel arf i annog y disgyblion i ymfalchïo yn eu gallu i ddefnyddio'r Gymraeg.

Mae gan yr ysgol bolisi cydraddoldeb hiliol a threfn ynglŷn ag ymateb i achosion hiliol pe cyfyd yr angen. Mae gweithredu effeithiol egwyddorion cynllun rhyngwladol yn sicrhau ymddygiad da iawn ar draws yr ysgol.

Mae'r adeiladau mewn cyflwr da. Mae digon o ofod ar gyfer yr ysgol a'r unedau ychwanegol. Gwneir defnydd pwrpasol o'r gofodau dysgu ble mae amrywiaeth o ardaloedd a gweithgareddau yn digwydd. Datblygir yr amgylchedd dysgu yn effeithiol drwy arddangosfeydd ysgogol a lliwgar sy'n rhoi parch a ffocws i waith disgyblion.

Mae tir yr ysgol yn y broses o gael ei ddatblygu, gyda chynlluniau ar y gweill o ran datblygu gardd wyllt. Mae'r tir yn ddiogel ac wedi ei amgylchynu â ffens a gatiau pwrpasol.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Er ei benodiad, mae'r pennaeth wedi caffael adnabyddiaeth o'r ysgol, gan gydweithio'n agos gyda'r pennaeth cynorthwyol a datblygu'r blaenoriaethau a nodir yn y cynllun datblygu ysgol.

Mae'r ysgol yn rhan o beilot cenedlaethol ar gyfer ffederaleiddio gydag Ysgol Glanadda, sef yr ysgol iau mae'n ei bwydo. Cynhelir cyfarfodydd cyson rhwng unigolion ar staff y ddwy ysgol i drafod materion perthnasol ac i gytuno ar ddulliau o gyflwyno'r cwricwlwm ar y cyd.

Mae gan yr ysgol ystod eang o bolisïau rheolaethol a chwricwlaidd sy'n cael eu gweithredu'n effeithiol.

Mae gan y staff rolau clir sy'n cael eu cyflawni yn gyson dda a chyd-weithiant yn effeithiol â'u gilydd. Maent yn cyfleu disgwyliadau uchel o ymddygiad ac yn hyrwyddo ethos gynhaliol a chefnogol o fewn y dosbarthiadau. Caiff hyn effaith gadarnhaol ar safonau disgyblion.

Mae aelodau'r corff llywodraethol ar y cyfan yn deall eu rôl ac yn ysgwyddo'u cyfrifoldebau'n gydwybodol. Er hyn, nid ydynt yn ddigon heriol ac nid yw eu rôl yn y broses hunan-arfarnu wedi ei datblygu'n ddigonol.

Mae'r ysgol yn llwyddo i roi sylw dyledus i rai blaenoriaethau cenedlaethol a lleol. Mae darpariaeth y Cyfnod Sylfaen wedi ei sefydlu'n llwyddiannus a rhannau o'r amgylchedd allanol wedi ei addasu'n effeithiol. Mae'r ysgol yn gweithredu elfennau

o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion megis ffurfio ffeiliau Datblygiad Proffesiynol Parhaus a rhannu arfer dda.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Mae gan yr ysgol strwythur o gyd-weithio hefo'r ysgol iau sydd wedi ei hen sefydlu ar gyfer arfarnu'r ddarpariaeth ar draws y ddwy ysgol. Mae arweinyddion pwnc yn casglu tystiolaeth drwy arsylwi'n uniongyrchol ar wersi, adolygu llyfrau disgyblion a thrwy drafod gydag aelodau staff. Fodd bynnag, nid ydynt yn defnyddio'r wybodaeth a gesglir o fewn y broses yn llawn. Nid ydynt yn ystyried holl ddata meincnodi'r ysgol yn ddigon manwl nac yn dehongli data sy'n gysylltiedig â chyflawniad carfannau penodol o ddisgyblion wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Rhoddir sylw dyledus i farn rhieni yn y broses ond nid yw'r ysgol yn olrhain barn a dyheadau'r disgyblion yn ddigonol.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ar y cyfan yn weddol ddadansoddol. Er hynny, nid yw'r elfennau sydd angen datblygiad pellach wedi eu nodi yn ddigon clir er mwyn trosglwyddiad hawdd i'r cynllun datblygu ysgol..

Mae yna gymuned ddysgu effeithiol ar draws y ddwy ysgol sy'n arwain at rannu syniadau a phrofiadau. Mae staff y Cyfnod Sylfaen wedi ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi ar arfer dda. Mae gan bob aelod o staff fynediad at weithgareddau datblygiad proffesiynol ac unrhyw rwydweithiau dysgu a grëir o ganlyniad. Er, hyd yma, nid yw'r ysgol wedi creu cysylltiadau gydag unrhyw aelod o'r teulu ysgolion.

**Gweithio mewn partneriaeth: Digonol**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag Ysgol Glanadda sef yr ysgol iau mae'n ei bwydo. Mae rôl yr ysgol o fewn ei chymuned yn cynyddu ac mae'n flaenoriaeth yn y cynllun datblygu ysgol cyfredol. Mae cysylltiadau da a threfniadau trosglwyddo effeithiol o'r cylch meithrin i ddosbarth meithrin yr ysgol ac o Flwyddyn 2 i'r ysgol iau. Er hynny, nid yw'r bartneriaeth rhwng yr ysgol ag ysgolion eraill y dalgylch wedi datblygu'n ddigonol.

Mae partneriaeth gyda'r rhieni wedi derbyn sylw penodol yn ddiweddar o ganlyniad i holiadur a ddanfonwyd atynt yn cywain eu barn. Er hynny, rhai gweithgareddau yn unig a gefnogir.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae lefelau staffio'r ysgol yn briodol ac mae trefniadaeth y dosbarthiadau yn effeithiol. Mae'r athrawon yn cyd-weithio'n effeithiol ac yn rhannu eu harbenigedd. Mae'r staff ategol yn cyflawni eu rolau yn dda ac yn gwneud cyfraniad pwysig i lwyddiant y ddarpariaeth yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r Corff Llywodraethol yn cadw golwg gofalus ar y gyllideb a sicrheir fod gwariant yn dilyn blaenoriaethau cynllun datblygu'r ysgol.

Trefnir sesiynau cynllunio, paratoi ac asesu priodol ar gyfer yr athrawon er mwyn mynd i'r afael â baich gwaith.  Mae hyn wedi arwain at welliant yn y cynllunio sydd yn ei dro wedi cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Oherwydd yr addysgu effeithiol sy'n hyrwyddo yn dda safonau a lles y disgyblion, mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Nifer fechan o holebau a dderbyniwyd yn ôl a dim ond dau riant ddaeth i'r cyfarfod gynhaliwyd ar eu cyfer.

Mae saith ymateb allan o'r wyth yn cytuno neu gytuno'n gryf â'r holl ddatganiadau.

Mae'r mwyafrif helaeth ohonynt felly yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. Mae pob un yn dweud fod eu plant yn hoffi'r ysgol, yn hapus yno ac yn teimlo'n ddiogel. Dywedant hefyd eu bod yn credu fod ymddygiad y disgyblion yn dda, fod y disgyblion yn cael eu parchu a'u datblygu i fod yn ddysgwyr annibynnol ac i ysgwyddo cyfrifoldebau. Maent o'r farn fod yr athrawon yn gweithio'n galed ac yn hawdd siarad â nhw os oes ganddynt unrhyw bryderon neu gwestiynau. Mae'r mwyafrif helaeth yn hapus a'r wybodaeth a rennir iddynt, y cynnydd a wna'r disgyblion a'r gwaith cartref a roddir iddynt i'w wneud.

**Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr**

Ni roddwyd holebau i'r dysgwyr gan mai ysgol ar gyfer disgyblion o dan saith oed ydy Ysgol Coedmawr.

P'run bynnag holwyd y disgyblion yn ystod yr arolygiad a mynegodd bob un eu bod yn hapus yn yr ysgol, yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn gwybod pwy y gallant siarad â nhw os ydynt yn poeni.

## Atodiad 2

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Huw Watkins | Arolygydd Tîm |
| Jeremy Turner | Arolygydd Lleyg |
| Manon Wyn Jones | Arolygydd Cymheiriaid |
| Mr Len Brookes | Enwebai’r Ysgol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | D | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod allweddol 1 | Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |